# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Iau, 25 Ionawr 2018 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Trefniadaeth (AM) a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

Ymgynghorydd Recriwtio (IJ)

## 1 YMDDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Peter Evans, Hugh Irving, Alan James, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Merfyn Parry a Paul Penlington.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

*PENDERFYNWYD - Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).*

## 3 PENODI PRIF WEITHREDWR

Bu i ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd, a arweiniodd at nifer fawr o geisiadau a rhestr fer o 6 ymgeisydd ar gyfer y broses asesu. Cynghorwyd Aelodau bod Panel Penodiadau Arbennig o gynghorwyr wedi nodi dau ymgeisydd gyda'r potensial i gael eu penodi, ac fe'u gwahoddwyd i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau; cafodd y ddau ymgeisydd yr un cwestiynau.

Wedi i'r ddau ymgeisydd adael y Siambr, trafododd yr aelodau eu cyflwyniadau, ymatebion i'r cwestiynau a'u perfformiad yn ystod y broses asesu.

***PENDERFYNWYD – penodi Judith Greenhalgh i swydd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.***